

CYMDEITHAS TAI WALES & WEST

ADRODDIAD I'R BWRDD – 11 EBRILL 2024

COMISIYNYDD Y GYMRAEG – DIWEDDARIAD BLYNYDDOL

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Adolygwyd a chymeradwywyd Cynllun Iaith Gymraeg (CIG) Tai Wales & West (TWW) gan Gomisiynydd y Gymraeg (CyG) ym mis Chwefror 2023. Roedd y CIG diwygiedig yn cynnwys mân newidiadau gweinyddol er mwyn adlewyrchu maint a siâp presennol TWW. Mae'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd ag ef wedi cael ei gynnwys yn y cynllun gweithredu blynyddol, sydd ar gael yn Atodiad 1, er mwyn cynorthwyo gyda gweithgarwch darparu, cydymffurfio a monitro yn y dyfodol.
- 1.2 Mae gofyn i bob cymdeithas tai yng Nghymru ddarparu diweddariad blynyddol i CyG. Mae'r diweddariad blynyddol yn ymwneud â'r cyfnod rhwng mis Mawrth 2023 a mis Chwefror 2024. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys yr holl weithgareddau ar draws y Grŵp.
- 1.3 Mae'r Gymdeithas yn parhau i gynnal ei hymrwymiad i'r iaith Gymraeg trwy ddarparu gwasanaethau a chyfathrebu dwyieithog i breswylwyr. Mae'r Gymdeithas yn annog ac yn hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y Gymdeithas hefyd.

2.0 Sgiliau Cymraeg

- 2.1 Ar hyn o bryd, mae 217 aelod o staff sy'n siarad Cymraeg yn y Gymdeithas, ac mae'r Gymraeg yn famiaith 83 o'r rhain. Yn ogystal, ceir sawl aelod Bwrdd y mae lefel eu sgiliau Cymraeg yn amrywio.
- 2.2 Mae pob aelod o staff yn y Gymdeithas wedi cwblhau hunanasesiad o'u sgiliau Cymraeg. Cesglir gwybodaeth am ruglder cyflogeion newydd fel rhan o'u harchwiliadau cyn cychwyn cyflogaeth. Mae'r pedwar categori, sef sgiliau siarad, gwrando, darllen ac ysgrifennu wedi'u cofnodi ar wahân ar system AD y Gymdeithas, Cascade, a chan fod hwn yn borth canolog, gall staff ddiweddarau lefelau rhuglder wrth iddynt newid.
- 2.3 Mae CyG yn dymuno gweld mwy o gysondeb wrth gofnodi sgiliau Cymraeg cyflogeion er mwyn hwyluso'r broses o gasglu data am y gweithlu dwyieithog ar lefel genedlaethol ac mae wedi paratoi cyngor ynghylch sut i wneud hyn yng nghanllaw cyngor Arfer Da wrth Recriwtio CyG. Yn unol ag argymhellion yn y canllaw Arfer Da, cytunodd y Gymdeithas fabwysiadu'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd ar gyfer ieithoedd (CEFR). Mae'r gwaith i ddatblygu a gweithredu fframwaith CEFR a addaswyd ar gyfer cyflogeion newydd a chyflogeion presennol yn parhau, gyda'r nod o'i weithredu ar gyfer yr holl staff newydd erbyn mis Ebrill 2024. Mae fframwaith CEFR yn disgrifio hyfedredd iaith ar chwe lefel yn y pedwar categori a disgwylir y bydd hyfedredd presennol y staff yn cael ei fapio ar draws pedair o'r chwe lefel, ac mae datrysiad i gofnodi'r ddwy lefel sy'n weddill yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.
- 2.4 Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg, Cymraeg 2050, yn nodi'r weledigaeth er mwyn sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hefyd yn cynnwys

y targed o ddyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg yn ystod yr un cyfnod, gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac yn y gweithle. Er mwyn cefnogi ymrwymiad y Gymdeithas i ddarparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg, ac i gynorthwyo gyda datblygu sgiliau ieithyddol a chynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, llwyddwyd i recriwtio Graddedig Datblygu ein Gweithlu ein Hunain yn y Gymraeg ym mis Mai 2023.

3.0 Hyfforddiant Cymraeg

- 3.1 Yn ystod y cyfnod adrodd, cofrestrwyd chwe aelod o staff ar gyrsiau 'Cymraeg Gwaith' ac roedd dau ddysgwyr newydd wedi cychwyn ar ddewis deuddeg mis 'Say Something in Welsh' (SSiW). Yn ogystal, mae dau aelod o staff yn dysgu trwy lwyfan digidol Duolingo.
- 3.2 Mae nifer o aelodau Bwrdd yn dysgu Cymraeg o hyd, gan ddefnyddio ap SSiW a mynychu dosbarthiadau.
- 3.3 Mae TWW wedi parhau i gefnogi dysgu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg trwy ap ar-lein SSiW a rhaglen Cymraeg Gwaith. Ariennir dysgu SSiW gan TWW.
- 3.4 Gwelwyd mwyafrif y dysgwyr yn oedi eu dysgu yn ystod 2022 a 2023 gan nodi bod dysgu wedi bod yn anoddach, yn rhannol oherwydd newidiadau mewn arferion gwaith ac ymrwymadau gofalu, a arweiniodd at adolygiad o ddarpariaethau dysgu. Mae gwaith wedi dechrau i gysylltu â'r holl ddysgwyr a oedd wedi oedi eu dysgu i annog a thrafod y cyfleoedd iddynt ailddechrau dysgu.
- 3.5 Yn ystod 2023, adolygodd TWW ddewisiadau dysgu Cymraeg ac, yn ychwanegol i Ddysgu Cymraeg ac SSiW, cyflwynwyd y tair sesiwn hyfforddi blasu mewnol 30 munud, yn seiliedig ar ddeunydd dysgu Cymraeg Gwaith. Arweiniodd dau ddigwyddiad hyrwyddo at 31 aelod o staff yn cofrestru ar gyfer y sesiynau hyfforddi. Nod y sesiynau yw ailgynnau ac annog aelodau o staff i ddechrau neu ailddechrau eu taith dysgu Cymraeg. Dechreuodd y dysgu ym mis Chwefror 2024.
- 3.6 Hyrwyddwyd yr holl gyfleoedd dysgu o fewn y rhaglen 'Cymraeg Gwaith', SSiW a'r tair sesiwn hyfforddi 30 munud o hyd yn ystod ymgyrch 'Defnyddia dy Gymraeg' yn 2023. Yn ogystal, hyrwyddwyd yr holl gyfleoedd dysgu, gan gynnwys 'Cwrs Rhagarweiniol Croeso Cymraeg Gwaith' er mwyn meithrin sgiliau Cymraeg cwrteisi, yn y cyhoeddiadau mewnol yn ystod 2023. Yn ystod sgysiau gyda staff newydd, caiff dysgu Cymraeg ei hyrwyddo, ac anogir staff i droi at y dudalen Dysgu Cymraeg benodedig.
- 3.7 Er mwyn hyrwyddo gweithle dwyieithog, mae teilsen 'Dysgu Cymraeg' yn parhau i fod mewn man amlwg ar dudalen flaen y fewnrwyd, ac mae'n cynnig manylion yr holl gyfleoedd dysgu a chymorth gan gynnwys gwybodaeth am 'Say Something in Welsh' a 'Chymraeg Gwaith'. Adolygir teilsen 'Dysgu Cymraeg' ar hyn o bryd i sicrhau bod adnoddau a chyfleoedd newydd yn cael eu cynnwys. Mae'r rhestrau termau wedi'u diweddarau i gynnwys cyfarchion, ymadroddion a themau tai penodol i gynorthwyo gyda'r dysgu a bydd geirfaoedd Menter Iaith hefyd yn cael eu cadw a byddant ar gael. Yn ogystal, mae'n darparu manylion yr holl siaradwyr Cymraeg yn y Gymdeithas, sy'n cynorthwyo gyda mentora anffurfiol, adnoddau defnyddiol, dyddiadau a manylion digwyddiadau diwylliannol Cymreig, yn rhai mewnol ac allanol, ymadrodd yr wythnos, templed dwyieithog ar gyfer

negeseuon e-bost bod rhywun allan o'r swyddfa a chyfleoedd i gynorthwyo a chynyddu lefelau hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

- 3.8 Yn ystod 2022/2023, ffurfiolwyd sesiynau mentora wythnosol 'Coffi a Sgwrs' er mwyn cynorthwyo pobl i ddysgu Cymraeg, ac fe'u hyrwyddwyd yn ystod Gŵyl Grŵp TWW, fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad yn y lefelau cyfranogi yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae adolygiad o'r darpariaethau mentora wedi'i gwblhau ac mae atebion i gefnogi dysgwyr a datblygu rhwydwaith o siaradwyr Cymraeg yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.
- 3.9 Er mwyn cynyddu dysgu achlysurol, mae ymadroddion a chyfarchion cyffredin wedi cael eu gosod o amgylch y tair swyddfa, a chaiff hyn ei adolygu bob chwarter.
- 3.10 Cwblhaodd pedwar aelod o staff gwrs 'Gloywi laith' a oedd yn canolbwyntio ar reolau gramadeg, wrth brofi gallu sgiliau ysgrifennu o fewn gwaith bob dydd ac, yn ogystal, mynychodd un aelod o staff gwrs Cynllunio a Rheoli'r Gymraeg mewn Gweithle Dwyieithog.

4.0 Hyrwyddo'r Gymraeg

- 4.1 Yn ystod y cyfnod y rhoddir sylw iddo yn yr adroddiad hwn, gwelwyd sawl achos lle y mae'r Gymraeg wedi cael ei hyrwyddo yn fewnol, ynghyd â chyhoeddiadau i hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol niferus megis Dydd Gŵyl Dewi, Santes Dwynwen, yr Eisteddfod Genedlaethol, Hen Galan, Defnyddia dy Gymraeg, a dathlwyd Diwrnod "Shwmae Su'mae" gyda chinio Cymreig a gweithgarwch hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol. Bu TWW hefyd yn cymryd rhan yn Niwrnod cenedlaethol Hawliau'r laith Gymraeg i ddathlu a hyrwyddo'r gwasanaeth Cymraeg a gynigir gan TWW trwy rannu fideo i amlygu'r hawliau sydd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymdrin â TWW. Gwelwyd cyhoeddiadau mewnol misol yn adran 'A wyddoch chi' ar SharePoint yn parhau, a oedd yn cynnwys gair/ymadrodd yr wythnos, newyddion Cymraeg a ffeithiau diwylliannol dwyieithog, hyrwyddo digwyddiadau Cymraeg, megis digwyddiadau Menter laith, a gwybodaeth am hanes Cymru a thraddodiadau Cymreig. Defnyddir y cyhoeddiadau mewnol hefyd i hyrwyddo poster ymadroddion Menter laith i gynorthwyo gyda dysgu. Yn ystod 2023/2024, gwelwyd y deunydd hwn a gafodd ei bostio dros 870 gwaith.
- 4.2 Mae TWW yn parhau i gefnogi digwyddiadau a datblygu gwaith partneriaeth gyda'r Fenter laith a sectorau addysg megis Mudiad Meithrin ac Ysgolion Uwchradd.
- 4.3 Hyrwyddwyd y Gymraeg hefyd yn y ffyrdd a ganlyn:-
- Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg trwy ddefnyddio brand laith Gwaith i adnabod siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg. Mae'r troedyn e-bost sy'n dangos bod gohebiaeth yn cael ei chrosawu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar e-byst allanol a mewnol siaradwyr Cymraeg rhugl. Gall y rhai sy'n dysgu Cymraeg nodi eu bod yn dysgu Cymraeg mewn negeseuon e-bost mewnol hefyd, sy'n cynorthwyo ac sy'n annog defnydd o'r iaith Gymraeg wrth weithio mewn ffordd rith. Yn ogystal, cynigir bathodynau a chortynnau gwddf laith Gwaith i'r holl staff a fyddai'n hapus i eraill ddechrau sgwrs yn Gymraeg gyda nhw. Roedd rhan o weithgareddau Dydd Gŵyl Dewi yn cynnwys rhannu tudalen ddwyieithog benodol ar SharePoint i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Roedd y dudalen yn rhoi trosolwg o aelodau staff tîm yr iaith Gymraeg ac arferion y Gymdeithas, gan ddarparu dolenni i ddogfennau allweddol megis y Cynllun laith

Gymraeg, y Protocolau Iaith Gymraeg a gweithdrefnau cyfieithu, gwybodaeth am weithgareddau TWW mewn perthynas â'r Gymraeg ac yn olaf, hyrwyddo cyfleoedd dysgu Cymraeg gan gynnwys SSiW.

- Gweithiodd TWW mewn partneriaeth i ddarparu a chefnogi nifer o ddigwyddiadau cymunedol dwyieithog a oedd yn cynnwys:
 - Digwyddiad Rhanddeiliaid Dwyieithog yn y datblygiad newydd yn Sanclêr
 - Digwyddiadau Haf o Hwyl dwyieithog wythnosol rhad ac am ddim yn ystod y gwyliau ysgol yn Aberteifi
 - Sesiynau adrodd stori Cymraeg yn rhai o ddiwrnodau chwarae ein cynlluniau
 - Prosiect Bocs Chwarae'r Haf (bocs storio llawn gweithgareddau hwyliog) i'r teulu, wedi'i gyflwyno gan staff Cymraeg eu hiaith a roddodd gyfle i chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg
 - Gwirfoddolodd staff i gynorthwyo gyda phaentio tu allan Ysgol Brynconin Llandysilio gan ddefnyddio eu 'Diwrnod Rhoi Rhywbeth yn Ôl'
 - Ymweliadau safle swyddfa symudol ddwyieithog
 - Gweithgareddau crefft dwyieithog yng Nghlos Tawelan
 - Cefnogi ysgol ddwyieithog gyda digwyddiadau yn ymwneud â gyrfa h.y., cyfweiliadau ffug â chymorth (gan staff yn defnyddio eu 'Diwrnod Rhoi Rhywbeth yn Ôl') yn Ysgol Maes Garmon
 - Wedi gweithio gyda chontractwyr a chyflenwyr TWW i fynychu Digwyddiadau Gyrfa i Ysgolion yng Nghonwy, Wrecsam a Hwlfordd
 - Canu carolau dwyieithog a bore coffi yn St Clements
 - Bore coffi Cymraeg ym Maes y Môr.
 - Noddodd TWW sawl grŵp yn ystod y cyfnod adrodd i gynorthwyo gyda chyflwyno a hyrwyddo'r Gymraeg. Gwariodd TWW ychydig dros £10,000 ar y gweithgareddau canlynol:
 - Noddi Gŵyl Ganol Dre Menter Iaith yng Nghaerfyrddin
 - Noddi Gŵyl Gerddorol Gymraeg Tregaroc
 - Noddi Carnifal cymunedol yn Sanclêr
 - Noddi Pencampwriaethau Aredig Cymru yng Ngheredigion
 - Cafodd Ysgol Gynradd Eglwyswrrw ac Ysgol Brynconin gefnogaeth i droi safleoedd a oedd wedi tyfu'n wyllt yn amgylcheddau dysgu awyr agored
 - Noddi cit rygbi yn Ysgol Bro Teifi
 - Nawdd i gwblhau Murlun Diwylliannol Cymreig 'Cynefin' yn Ysgol Aberteifi
- 4.4 Hyrwyddwyd Cynllun yr Iaith Gymraeg ei hyrwyddo yn ystod y cyfnod adrodd ar fewnwyd y staff a lluniwyd dogfen wybodaeth am yr iaith Gymraeg, a gaiff ei chynnwys ym mhroses Ymsefydlu Rheolwyr, ac sy'n darparu gwybodaeth a dolenni i Gynllun yr Iaith Gymraeg, Protocolau'r Gymraeg a'r weithdrefn ar gyfer gwaith cyfieithu Cymraeg. Mae'r Gymraeg yn parhau i gael ei hyrwyddo o fewn y cyflwyniadau Ymsefydlu Corfforaethol.
- 4.5 Cynhaliwyd archwiliad o'r arwyddion yn y tair swyddfa a'r holl gynlluniau gofal ychwanegol ac mae camau i fynd i'r afael ag anghysondebau yn cael sylw ar hyn o bryd.

5.0 Cyfathrebu yn Gymraeg

- 5.1 Mae nifer fach o breswylwyr (62 at ei gilydd) wedi nodi eu bod yn dymuno cyfathrebu gyda'r Gymdeithas yn Gymraeg ac maent wedi nodi eu dewisiadau mewn perthynas â chyfathrebu ysgrifenedig, cyfathrebu ar lafar neu'r ddau. Yn ogystal, mae 1,240 o breswylwyr yn cael copïau dwyieithog o In Touch.
- 5.2 Bydd gwaith yn mynd rhagddo eleni i gasglu gwybodaeth mewn perthynas â dewis iaith fel rhan o broffilio preswylwyr fel rhan o waith y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant. Cedwir data dewis iaith 67% o breswylwyr. Mae dewis iaith ar gael i'r holl staff ei weld a bydd gohebiaeth a gychwynnir gan TWW yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unol â'r hyn a nodwyd gan y preswlydd pan fydd manylion ynghylch eu dewis wedi cael eu casglu. Anfonir pob gohebiaeth yn ddwyieithog a bydd hyn yn parhau nes bydd gwybodaeth lawn am eu dewis wedi cael ei chasglu ar gyfer y preswylwyr hyn.
- 5.3 Mae TWW yn parhau i groesawu galwadau a chyfathrebu yn Gymraeg. Pan fydd pobl yn ffonio prif rif ffôn TWW, bydd y neges gyntaf yn cynnig dewis iaith i bobl. Caiff pob un sy'n dewis Cymraeg ac sy'n ffonio yn ystod oriau swyddfa eu cyfeirio at staff y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt. Gwelwyd gostyngiad bach yn nifer y galwadau a oedd yn gofyn am y Gymraeg o'i gymharu â'r cyfnod adrodd blaenorol, a chafwyd 968 o alwadau yn ystod 2023/2024, o'u cymharu â 1,153 yn 2022/2023. Mae'r galwadau Cymraeg yn 1.04% o'r holl alwadau a geir yn ystod oriau swyddfa. Ar ôl gweithredu canlyniadau'r gwasanaeth teleffoni, cynhaliwyd ymarfer galwr dirgel, a arweiniodd at recordiad teleffoni newydd i hysbysu preswylwyr nad oedd gwasanaeth brys Cymraeg y tu allan i oriau ar gael ar hyn o bryd.
- 5.4 Mae TWW yn manteisio ar wasanaeth cyfieithwyr Cymraeg proffesiynol, yn ogystal â defnyddio staff dynodedig sy'n ymateb i ac sy'n blaenoriaethu unrhyw waith yn unol ag anghenion y Gymdeithas. Gwneir yr holl waith prawffddarllen yn fewnol gan wahanol gyfieithydd, sy'n sicrhau bod pob darn o waith yn gyson, ac y defnyddir terminoleg safonol. Adolygwyd y weithdrefn gyfieithu, a gyflwynwyd ar ôl cyhoeddi dogfen gynghori CyG, sef 'Drafftio Dwyieithog, Cyfieithu a defnyddio'r Gymraeg wyneb yn wyneb' yn ystod 2023 yn dilyn gweithredu'r feddalwedd cof cyfieithu mewdol Cyfieithu Cymru, sydd ar gael ar fewnwyd y staff ac mae wedi'i gynnwys ym mhob ymateb awtomatig i geisiadau cyfieithu. Mae cyflwyno Cyfieithu Cymru yn gymorth i hwyluso'r broses gyfieithu wrth gwrdd â gofynion y Gymdeithas.
- 5.5 Cynhaliwyd adolygiad cynnwys llawn o wefan TWW yn 2023. Yn dilyn hynny, cynhaliwyd ymarfer siopwr dirgel i sicrhau bod y wefan yn parhau i fod yn gwbl ddwyieithog. Rhoddwyd ystyriaeth i anghysondebau posibl rhwng y tudalennau Cymraeg a Saesneg gan ganolbwyntio ar ymarferoldeb yn arbennig gyda thudalennau Cymraeg, wrth sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol. Mae'r holl anghysondebau a nodwyd yn cael sylw ar hyn o bryd ac mae gwaith sy'n canolbwyntio ar ddatrys anghysondebau a nodwyd ar y tudalennau Cymraeg yn adran recriwtio'r wefan yn parhau. Yn ystod 2022/2023, gwelwyd y tudalennau Saesneg ychydig dros 333,000 gwaith, a gwelwyd y tudalennau Cymraeg bron i 1,900 gwaith, o'i gymharu gydag ychydig dros 283,000 (Saesneg) gwaith a 1,900 (Cymraeg) gwaith yn 2022/2023. Y dudalen a welwyd amlaf yn yr iaith Gymraeg oedd y dudalen yn ymwneud a'r Dudalen Hafan, ac yna y Polisi Preifatrwydd a Gofal. Mae

dogfen newydd CIG a gymeradwywyd ac Adroddiad Diweddariad Blynyddol yr Iaith Gymraeg ar gael ar y wefan.

- 5.6 Mae'r Gymdeithas yn defnyddio nifer o blatfformau cyfryngau cymdeithasol hefyd gan gynnwys Facebook, Instagram a Twitter er mwyn rhannu negeseuon corfforaethol, newyddion a swyddi yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd yr ymarfer siopa dirgel cyfryngau cymdeithasol mewn perthynas â'r llwyfannau hyn yn rhoi sicrwydd bod ystyriaeth gyfartal wedi'i rhoi i'r ddwy iaith yn ystod y cyfnod adrodd. Yn ystod y cyfnod adrodd, rhannodd y Gymdeithas hefyd 19 o fideos dwyieithog a gynhyrchwyd yn fewnol ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.
- 5.7 Mae'r protocolau mewnol ac allanol am yr iaith Gymraeg wedi bod mewn grym er mis Medi 2017, ac fe'u hadolygwyd yn 2024. Mae'r protocolau, sydd ar gael ar fewnwyd y staff, yn cynnig arweiniad ynghylch sut y mae TWW yn darparu gwasanaethau Gymraeg yn fewnol ac yn allanol. Mae'r protocolau yn datblygu'r CIG a gymeradwywyd, a gwneir mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn dogfennau mewnol ac allanol.
- 5.8 Mae ystyriaeth i gyflwyno Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg fel hyfforddiant gorfodol wedi dechrau gan y bydd hyn yn rhan o Safonau'r Gymraeg. Bydd yr hyfforddiant yn rhoi gwell dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, megis y fframwaith deddfwriaethol a pholisi, a'r rhesymeg y tu ôl i ddwyieithrwydd. Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar werthfawrogi dewis iaith fel rhan annatod o gyfathrebu effeithiol ac optimeiddio gwasanaeth cwsmeriaid. Bydd nod yr hyfforddiant hefyd yn cynorthwyo wrth ystyried cynllunio gwasanaethau ac ystyriaethau adnoddau wrth roi sylw dyledus i'r canlyniadau ar y defnydd o'r Gymraeg wrth ddatblygu neu ddiweddarau polisiau a gweithdrefnau.
- 5.9 Yn dilyn adolygiad o'r rhestr gyfeirio hunan-reoleiddio a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan CyG, mae nifer y swyddi newydd a gwag yn ystod y flwyddyn adrodd wedi cael eu cynnwys yn niweddariad blynyddol 2023/2024. Rhwng mis Mawrth 2023 a mis Chwefror 2024, hysbysebwyd 95 o swyddi newydd neu wag, a hysbysebwyd y rhain oll gyda theitlau swydd ddwyieithog. Roedd pob un yn nodi bod y Gymraeg yn ddymunol. Mae adran i asesu gofynion y Gymraeg ar gyfer swyddi presennol a newydd wedi'i chynnwys yn y Ffurflen Gais Recriwtio fewnol sy'n gofyn i Reolwyr roi ystyriaeth briodol i ofynion darparu gwasanaeth Gymraeg. Caiff geirfa wedi'i chyfieithu, sy'n cynnwys yr holl rolau presennol, ymadroddion a themau ar gyfer hysbysebion recriwtio, ei diweddarau yn rheolaidd ac mae ar gael ar y dudalen fewnol am yr iaith Gymraeg. Fel y nodwyd uchod, mae'r gwaith yn parhau i fabwysiadu dull cyson mewn perthynas â hysbysebu swyddi gwag ar wefan y Gymdeithas
- 5.10 Mae'r gwaith o gasglu gwybodaeth mewn perthynas â'r holl ddogfennau a chyhoeddiadau a gynhyrchir yn fewnol yn parhau. Nod yr ymarfer yw sicrhau bod pob dogfen ar gael yn ddwyieithog ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol. Yn ystod y cyfnod adrodd, roedd y maes ffocws yn canolbwyntio ar gyhoeddiadau corfforaethol a dogfennaeth a chyhoeddiadau cynllun Gofal Ychwanegol. Nododd ymarfer siopwr dirgel bod yr holl gyhoeddiadau corfforaethol allweddol h.y., Adroddiad Blynyddol, Cynllun Busnes, Adroddiad Effaith a'r Cylchlythyr i Breswylwyr yn ddwyieithog ac ar gael ar y wefan. Arweiniodd adolygiad o'r dogfennau a chyhoeddiadau Gofal Ychwanegol at ymarfer i symleiddio dogfennaeth a chyhoeddiadau, lle bo modd, ar draws yr holl gynlluniau i sicrhau bod yr holl ddogfennaeth ar gael yn ddwyieithog. Ailedrychwyd hefyd ar ymrwymadau iaith Gymraeg y Gymdeithas, sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun a'r protocolau, yn ystod

cyfarfod tîm Llety â Chymorth i sicrhau bod darpariaeth gwasanaeth Cymraeg yn parhau i fod yn faes ffocws. Yn ogystal, cyfarfu'r tîm Gwasanaethau Corfforaethol â darparwyr gofal o fewn y cynlluniau i gynnig cefnogaeth gyda gwasanaethau cyfieithu ac i rannu adnoddau dysgu Cymraeg.

6.0 Cwynion

Yn ystod cyfnod yr adroddiad, rhoddwyd gwybod am un camgymeriad ar arwydd cynllun ac o ganlyniad, adolygwyd y gweithdrefnau cyfieithu i nodi bod yr holl waith prawffddarllen dylunio drafft terfynol a chymeradwyo sy'n ymwneud ag arwyddion a gynhyrchwyd yn allanol, yn cael ei gyflawni gan y tîm cyfieithu. Mae'r gweithdrefnau wedi'u diweddaru wedi'u cyfleu i'r holl aelodau staff perthnasol.

7.0 Diweddariad am weithredu Safonau'r Gymraeg

Er nad oes llinellau amser swyddogol wedi'u cyfathrebu, mae Uned yr Iaith Gymraeg yn Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod paratoi'r Safonau ar gyfer Cymdeithasau Tai yn parhau ar y rhaglen waith ac mae'n rhagweld y bydd y gwaith yn mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn. Cadarnhaodd yr uned hefyd y bydd yn cyfathrebu â Chartrefi Cymunedol Cymru (CHC) am y ffordd orau o ymgysylltu â'r sector fel rhan o'r broses. Mae CHC hefyd wedi cadarnhau bod disgwyl y bydd Uned yr Iaith Gymraeg yn dechrau gweithio gyda'r sector i ddatblygu safonau ar ôl Pasg 2024. Gyda'r bwriad o fabwysiadu dull rhagweithiol o ymdrin â'r Safonau sydd ar ddod, mae'r Gymdeithas wedi dechrau trafodaethau gydag Iaith Cyf, y ganolfan Gymraeg ar gyfer cynllunio ieithyddol. Bydd diweddariad ar yr amserlenni arfaethedig mewn perthynas â'r ymgynghoriad a'r prosesau gorfodi yn cael ei gynnwys yn y diweddariadau i'r Bwrdd Gwasanaethau Corfforaethol yn y dyfodol ac yn cael eu cyfleu i staff yn ystod 2024.

8.0 Cyfathrebu a chynllun gweithredu Comisiynydd y Gymraeg

Ni wnaethpwyd unrhyw argymhellion na diwygiadau ar ôl cyflwyno adroddiad monitro blynyddol a chynllun gweithredu 2022/2023 i CyG. Os bydd y Bwrdd yn ei gymeradwyo, cyflwynir yr adroddiad monitro a'r cynllun wedi'i ddiweddaru yn Atodiad 1 i CyG yn y ffordd arferol. Fel yr adroddwyd uchod, mae'r CIG a adolygwyd ac a gymeradwywyd o'r newydd ar gael ar wefan TWW a chaiff ei hyrwyddo yn fewnol yn fuan.

9.0 Argymhellion

ARGYMHELLIR bod y Bwrdd: -

- i. yn nodi'r adroddiad hwn; ac yn
- ii. cymeradwyo'r cynllun gweithredu yn Atodiad 1.

Alex Stephenson

Cyfarwyddwr Gweithredol (Strategaeth Gorfforaethol a Gwasanaethau)

4 Ebrill 2024